# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 8

CONTRACTAU SAFONOL Â CHYMORTH

### 143 Contract safonol â chymorth a llety â chymorth

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "contract safonol â chymorth" yw contract safonol sy'n perthyn i lety â chymorth.

(2) At ddibenion y Ddeddf hon mae llety yn "llety â chymorth"—

- (a) os yw'n cael ei ddarparu gan landlord cymunedol neu elusen gofrestredig,
- (b) os yw'r landlord neu'r elusen (neu berson sy'n gweithredu ar ran y landlord neu'r elusen) yn darparu gwasanaethau cymorth i berson sydd â hawl i feddiannu'r llety, ac
- (c) os oes cysylltiad rhwng darparu'r llety a darparu'r gwasanaethau cymorth.

(3) Nid yw llety mewn sefydliad gofal (o fewn ystyr paragraff 4 o Atodlen 2) yn llety â chymorth.

(4) Mae "gwasanaethau cymorth" yn cynnwys—

- (a) cymorth i reoli neu oresgyn dibyniaeth,
- (b) cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth neu lety arall, ac
- (c) rhoi cymorth i rywun sy'n ei chael hi'n anodd byw yn annibynnol oherwydd oed, afiechyd, anabledd neu unrhyw reswm arall.

(5) Mae "cymorth" yn cynnwys darparu cyngor, hyfforddiant, arweiniad a chwnsela.